
Lleoliad BBC Sounds yn y Farchnad

Datganiad

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 25 Tachwedd 2021

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Y cefndir i'r datganiad hwn	3
3. Cyd-destun y farchnad	Error! Bookmark not defined.
4. Asesiad cystadleuaeth	Error! Bookmark not defined.
5. Casgliadau	Error! Bookmark not defined.

1. Trosolwg

Yn y datganiad hwn rydym yn amlinellu ein canfyddiadau ar leoliad marchnad a dylanwad BBC Sounds yn sector sain y DU.

- 1.1 Mae sector sain y DU yn newid yn gyflym oherwydd esblygiad gwasanaethau ar-lein a thwf llwyfannau ffrydio byd-eang. Mae radio masnachol a'r BBC wedi ymateb i hyn drwy ddatblygu eu cynigion ar-lein.
- 1.2 BBC Sounds yw gwasanaeth ffrydio sain a lawrlwytho y BBC, sy'n cynnwys radio byw, cerddoriaeth ar-alw, cynnwys lleferydd a phodlediadau. Mae ar gael ar amrywiaeth o ddyfeisiau, gan gynnwys ffonau clyfar, llechi, seinyddion clyfar a systemau sain ceir.
- 1.3 Ym mis Mai 2021, gwnaethom ymgynghori ar ein barn dros dro ar leoliad marchnad a dylanwad BBC Sounds. Roedd hyn yn dilyn y cais am dystiolaeth a gyhoeddwyd gennym ym mis Hydref 2020, pan wnaethom ofyn am dystiolaeth a gwybodaeth gan randdeiliaid.
- 1.4 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth, yr ymgynghoriad a gwybodaeth arall am y sector, yn y datganiad hwn rydym yn amlinellu ein casgliadau ar leoliad marchnad a dylanwad BBC Sounds yn sector sain y DU.

Ein casgliadau – yn gryno

- Rydym wedi ystyried y ffyrdd y gallai BBC Sounds gael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol drwy ddominyddu radio ar-lein, gan gynnwys drwy drawshyrwyddo BBC Sounds, neu drwy effeithio'n negyddol ar refeniw podlediadau masnachol.
- Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes gennym sail resymol dros gredu bod BBC Sounds yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Yn benodol, ceir tystiolaeth gref y bu radio masnachol yn fwy llwyddiannus o ran denu gwrandawyr ar-lein na BBC Sounds; bod gwrandawyr BBC Sounds yn tueddu i ddefnyddio llwyfannau lluosog; a bod gan sector podlediadau'r DU amrywiaeth eang o gynnwys nad yw'n dod o'r BBC, ac mae cynhyrchwyr sydd wedi llwyddo i gynhyrchu refeniw masnachol a refeniw hysbysebu wedi tyfu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- O ganlyniad, rydym wedi dod i benderfyniad nad yw'r trothwy wedi'i gyrraedd ar hyn o bryd ar gyfer symud ymlaen at adolygiad cystadleuaeth o BBC Sounds o dan Siarter a Chytundeb y BBC.
- Rydym yn cydnabod bod y BBC mewn sefyllfa gref yn sector sain y DU. Mae hynny wedi bod yn wir ers tro, gyda gorsafoedd radio a phodlediadau'r BBC yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd sylweddol. Mae BBC Sounds wedi mynd yn rhan o'r sefyllfa gref honno. Felly, mae'n bwysig bod y BBC yn ystyried yn ofalus sut y gallai newidiadau pellach yn y maes hwn effeithio ar gystadleuaeth. Byddwn yn parhau i fonitro newidiadau o'r fath.
- Gan hynny, rydym yn disgwyl tryloywder ac ymgysylltiad gweithredol gan y BBC â'r sector ynghylch ei chynlluniau a'i strategaeth yn y dyfodol, i'w galluogi i ddeall sut y gallai ei chynigion effeithio ar gystadleuaeth, ac i gymryd hyn i ystyriaeth wrth ddatblygu nhw. Mae hyn yn debygol o olygu y bydd y BBC yn darparu mwy o wybodaeth am newidiadau arfaethedig i BBC Sounds nag y byddai gweithredwyr masnachol efallai yn ei datgelu ynglŷn â'u strategaethau eu hunain.
- Credwn y gallai fod modd cael cydweithio pellach rhwng y BBC a darparwyr cynnwys sain eraill mewn perthynas â BBC Sounds, a allai helpu i gefnogi dyfodol radio'r DU yng nghyd-destun yr heriau a wynebir gan y sector.

2. Y cefndir i'r datganiad hwn

Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r adran hon yn darparu cyd-destun ffeithiol a rheoleiddio i'n datganiad ar leoliad BBC Sounds o fewn y sector. Mae'n nodi disgrifiad ffeithiol o BBC Sounds a'r gwasanaethau a'i rhagflaenodd, ac yn esbonio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer y BBC, cyn crynhoi'r cais am dystiolaeth ar BBC Sounds a gyhoeddwyd gennym ym mis Hydref 2020, yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd gennym ym mis Mai eleni, a'r pwyntiau allweddol a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Mae'n cloi drwy nodi prosiectau eraill Ofcom sy'n berthnasol i BBC Sounds ac adolygiad Llywodraeth y DU o radio a sain digidol, a ddaeth i ben ym mis Hydref.
- 2.2 Mae gweddill y datganiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:
- Mae Adran 3 yn nodi ein dealltwriaeth o gyd-destun y farchnad y mae BBC Sounds wedi datblygu ynddi, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd i ni mewn ymateb i'r cais am dystiolaeth, yr ymgynghoriad a'n hymchwil marchnad ein hunain. Mae'n cyfeirio ein hasesiad cystadleuaeth yn adran 4 a'r casgliadau a amlinellwn yn adran 5.
 - Yn adran 4, rydym yn darparu ein hasesiad o ba un a oes sail resymol dros gredu bod BBC Sounds yn cael effaith andwylol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
 - Yn adran 5, rydym yn amlinellu ein casgliadau ynghylch:
 - p'un a fyddai'n briodol, yng ngoleuni ein hasesiad cystadleuaeth, i Ofcom agor adolygiad cystadleuaeth BBC ffurfiol mewn perthynas â BBC Sounds;
 - pryd y gallai newidiadau i BBC Sounds yn y dyfodol godi materion o ran cystadleuaeth;
 - ein disgwyliadau o'r BBC o ran tryloywder ac ymgysylltu ag eraill wrth i BBC Sounds esblygu; a
 - manteision posib cydweithio pellach rhwng y BBC a thrydydd partïon mewn perthynas â BBC Sounds.

Beth yw BBC Sounds?

- 2.3 Mae BBC Sounds yn wasanaeth ffrydio a lawrlwytho sain gan y BBC. Mae'r cynnwys sydd ar gael arno yn cynnwys: gorsafoedd radio darlledu byw (e.e. Radio 2); ffrydiau tebyg i radio (e.e. Radio 1 Dance); radio dal i fyny (h.y. penodau ar-alw o raglenni radio, gan gynnwys mewn fformat podlediad); podlediadau oddi ar yr amserlen (h.y. podlediadau nad ydynt o raglenni radio, e.e. *Newscast*); a chymysgeddau cerddoriaeth oddi ar yr amserlen.
- 2.4 Mae'n cyflwyno cynnwys i ddefnyddwyr mewn ffordd a bersonolir; er enghraifft, mae'n galluogi defnyddwyr i lawrlwytho cynnwys i'w ddefnyddio pan nad ydynt wedi'u cysylltu â'r rhyngwrwd ac yn galluogi i radio byw gael ei oedi a'i ailddirwyn.
- 2.5 Lanswyd BBC Sounds ym mis Hydref 2018, gan ddod â nodweddion a chynnwys iPlayer Radio a BBC Music ynghyd (gweler isod) mewn un wefan ac ap unedig, gyda chynnydd yn

nifer y podlediadau oddi ar yr amserlen a chymysgeddau cerddoriaeth oddi ar yr amserlen, yn ogystal â nodweddion gwell, gan gynnwys:

- darganfod wedi'i bersonoli – blaenoriaethu cynnwys sy'n berthnasol i'r defnyddiwr penodol;
- chwarae parhaus – chwarae'r cynnwys a argymhellir yn awtomatig unwaith y bydd cynnwys dewisedig y defnyddiwr yn gorffen chwarae; ac
- awto-lawrlwytho – lawrlwytho cynnwys sy'n deillio o gyfresi y mae defnyddwyr wedi'u 'dewis' neu eu 'dilyn' yn awtomatig.

2.6 Mae datblygiad BBC Sounds wedi cynnwys lansio'r ffrwd Radio 1 Dance yn 2020 a lansio'r ffrwd Radio 1 Relax yn 2021.

2.7 Mae BBC Sounds ar gael fel ap ar systemau gweithredu megis Android ac iOS, yn ogystal â thrwy wefan y BBC. Gan hynny, mae ar gael ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau cysylltiedig, gan gynnwys ffonau symudol a llechi, cyfrifiaduron personol, seinyddion clyfar, systemau sain mewn ceir a setiau teledu clyfar.¹

Cynnwys sain ar-lein y BBC sy'n bodoli eisoes

2.8 Cyn lansio BBC Sounds, roedd cynnwys sain ar gael gan y BBC drwy wefan iPlayer Radio a thrwy ddau ap perchnogol, iPlayer Radio a BBC Music, i'w defnyddio ar ddyfeisiau cysylltiedig, fel yr amlinellir isod.

iPlayer Radio

2.9 Roedd y cynnwys a oedd ar gael drwy wefan ac ap iPlayer Radio yn cynnwys y canlynol:

- Rhaglenni radio darlledu: roedd holl orsafoedd radio rhwydwaith y BBC, radio'r gwledydd, a gorsafoedd radio lleol Lloegr a World Service ar gael yn fyw a gellid lawrlwytho rhaglenni hefyd i wrando arnynt yn ddiweddarach.
- Penodau oddi ar yr amserlen o raglenni Radio'r BBC, a oedd ar gael drwy iPlayer Radio yn unig na chawsant eu dosbarthu drwy RSS.
- Podlediadau oddi ar yr amserlen, nad oeddent yn gyfyngedig i iPlayer Radio yn unig ac a oedd ar gael drwy RSS ar lwyfannau podlediad trydydd parti.

2.10 Roedd ymarferoldeb gwefan ac ap iPlayer Radio yn galluogi defnyddwyr i chwarae ac oedi cynnwys sain a 'sgrwbio', h.y. symud y llithrydd yn ôl ac ymlaen ar hyd y bar cynnydd sain i chwarae gwahanol rannau o'r sain. Gallai defnyddwyr hefyd gael mynediad at "My Radio", a ddarparodd fynediad i raglenni yr oeddent wedi'u dewis eu 'dilyn' ac argymhellion a gynhyrchwyd trwy algorithmau ar gyfer rhaglenni eraill efallai y byddent yn eu mwynhau.

¹ I gael mynediad at BBC Sounds ar seinyddion clyfar Amazon, mae angen i ddefnyddwyr alluogi BBC Sounds Skill yn Amazon Alexa. Mae Alexa Skills yn alluoedd a ysgogir gan lais y gellir eu lawrlwytho er mwyn caniatáu defnydd mwy greddfoll o seinyddion clyfar.

BBC Music

- 2.11 Yn ychwanegol at rywfaint o gynnwys darlledu, rhoddodd gwefan ac ap BBC Music fynediad i ddefnyddwyr at y cynnwys canlynol:
- Rhagflasau cerddoriaeth: detholiadau byr (30 eiliad) o draciau cerddoriaeth unigol yr oeddent wedi'u chwarae ar orsafoedd Radio'r BBC neu a oedd wedi ymddangos ar Restrâu Chwarae BBC Music.
 - Sesiynau cerddoriaeth: clipiau o gynnwys unigryw BBC Music, e.e. cyfweiliadau, perfformiadau neu glipiau rhaglenni.
 - Rhestrau chwarae cerddoriaeth: rhestrau o draciau cerddoriaeth a gymerwyd o raglen Radio'r BBC benodol neu wedi'u curadu yn ôl thema, digwyddiad, genre neu argymhellion gan ddoniau'r BBC, gan roi mynediad i ddefnyddwyr at glip 30 eiliad o bob trac.
 - Cymysgeddau cerddoriaeth: fersiynau ar-alw o raglenni cerddoriaeth a ddarlledwyd yn flaenorol ar orsafoedd radio cerddoriaeth y BBC. Yn gyffredinol, byddent yn cael eu 'clipio' i gynnwys segment penodol o fewn rhaglen.
- 2.12 Roedd gwefan ac ap BBC Music yn cynnig yr un nodweddion chwarae'n ôl ag ar iPlayer Radio. Yn ychwanegol, gallai defnyddwyr a oedd wedi'u cofrestru a'u mewngofnodi i wefan neu ap BBC Music gael mynediad i 'My Tracks', a alluogodd ddefnyddwyr i gadw clipiau 30 eiliad o draciau unigol i lyfrgell bersonol a chreu rhestr chwarae wedi'i phersonoli o glipiau.

Fframwaith rheoleiddio ar gyfer y BBC

- 2.13 Cenhadaeth y BBC, yn ôl Siarter Frenhinol y BBC (y "**Siarter**"),² yw gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa trwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, nodedig ac uchel eu hansawdd sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. ³ Mae'r Siarter hefyd yn nodi Dibenion Cyhoeddus y BBC.⁴
- 2.14 Mae'n ofynnol i'r BBC gyflawni ei Cenhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus wrth ddarparu ei gwasanaethau cyhoeddus yn y DU.⁵ Nodir gwasanaethau cyhoeddus presennol y BBC yn y DU mewn rhestr sy'n cael ei chynnal a'i chyhoeddi gan y BBC.⁶ Maent yn cynnwys 'BBC Arlein', a ddiffinnir fel "gwasanaeth cynnwys ar-lein cynhwysfawr, gyda chynnwys sy'n gwasanaethu holl ystod Dibenion Cyhoeddus y BBC gan gynnwys gwefannau

² [Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig](#), Rhagfyr 2016.

³ Erthygl 5 y Siarter.

⁴ Erthygl 6 y Siarter.

⁵ Erthygl 7(3) y Siarter.

⁶ Mae Erthygl 7(3) y Siarter yn darparu y bydd gwasanaethau cyhoeddus y DU yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, "y gwasanaethau presennol a bennir yn y Cytundeb Fframwaith" (gan gyfeirio at y [Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC](#), Rhagfyr 2016). Mae Cymal 7(1) y Cytundeb yn darparu bod gwasanaethau cyhoeddus y DU "yn cynnwys y gwasanaethau a bennir gan neu o dan Atodlen 1". Mae Atodlen 1 paragraff 1(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gynnal a chyhoeddi rhestr o wasanaethau cyhoeddus y DU. Mae'r rhestr ddiweddaraf o wasanaethau cyhoeddus y DU (a ddiweddarwyd ar 24 Chwefror 2019) ar gael yn:

http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/structureandgovernance/list_of_uk_public_services_feb_2019.pdf.

newyddion a chwaraeon y BBC, BBC iPlayer a BBC Three ar gyfer cynulleidfaoedd oedolion iau". Ar hyn o bryd mae BBC Sounds yn rhan o wasanaeth cyhoeddus BBC Arlein.

- 2.15 Ym maes perfformiad, mae'n rhaid i Fwrdd y BBC arwain y BBC i gyflawni nodau'r Siarter.⁷ Mae'n ofynnol i'r BBC gyhoeddi Cynllun Blynyddol ar gyfer bob blwyddyn ariannol, cyn y cyfnod y mae'n berthnasol iddo, y mae'n rhaid iddo gynnwys y cylch gwaith creadigol a'r cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn honno.⁸ Mae hefyd yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi adroddiad blynyddol y mae'n rhaid iddo gynnwys sut y cyflawnodd y cylch gwaith creadigol a'i gynllun gwaith, ac unrhyw newidiadau arwyddocaol i'w weithgareddau.⁹
- 2.16 Un o gyfrifoldebau canolog Ofcom mewn perthynas â'r BBC yw ei dwyn i gyfrif am gyflawni ei Chenhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Mae Ofcom wedi pennu'r Drwydded Weithredu, sy'n nodi ystod o amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i'r BBC eu bodloni. Mae'r Drwydded Weithredu yn cwmpasu holl wasanaethau cyhoeddus y DU, gyda rhai o'r amodau rheoleiddio yn cyfeirio at wasanaethau unigol y BBC. Mae Ofcom hefyd wedi pennu mesurau ar gyfer asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus y DU wrth gyflawni Cenhadaeth y BBC a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.¹⁰
- 2.17 Mae'r Fframwaith Gweithredu¹¹ ar gyfer y BBC yn cynnwys y darpariaethau y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol i sicrhau bod gweithgareddau'r BBC yn cael eu rheoleiddio'n effeithiol fel a nodir yn y Siarter a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC (y "**Cytundeb**").¹²
- 2.18 Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n amlinellu sut rydym wedi cyflawni ein swyddogaethau ac wedi asesu cydymffurfiaeth y BBC â'r Drwydded Weithredu a gofynion rheoleiddio eraill.¹³ Mae hefyd yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi dau neu fwy o adolygiadau cyfnodol manwl yn ystod cyfnod y Siarter sy'n adolygu i ba raddau y mae'r BBC yn cyflawni ei Chenhadaeth ac yn hyrwyddo pob un o'r Dibenion Cyhoeddus.¹⁴

Tryloywder ac atebolrwydd

- 2.19 Mae'n ofynnol i'r BBC gadw at safonau uchel o fod yn agored ac anelu at sicrhau'r tryloywder a'r atebolrwydd mwyaf sy'n bosib.¹⁵ Fel rhan o hynny, mae'n ofynnol iddi sicrhau, ymhlith pethau eraill, fod penderfyniadau pwysig ynghylch newidiadau i'w chylch gwaith creadigol a'i chynllun gwaith, ynghyd â'r rhesymau y tu ôl iddynt a chrynodeb o

⁷ Erthygl 20(3)(a) a (b) y Siarter.

⁸ Erthygl 36 y Siarter.

⁹ Erthygl 37 y Siarter.

¹⁰ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/107070/bbc-performance-statement-annexes.pdf

¹¹ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/bbc-operating-framework/operating-framework>

¹²

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/584329/57965_Cm_9366 Print 1 .pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/584329/57965_Cm_9366_Print_1.pdf)

¹³ Erthygl 50 y Siarter. Mae ein hadroddiad blynyddol diweddaraf ar y BBC ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/bbc-operating-framework/performance/bbc-annual-report>.

¹⁴ Erthygl 51 y Siarter.

¹⁵ Erthygl 12 y Siarter.

dystiolaeth sy'n eu cefnogi, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth arall y mae'n rhesymol ac yn gymesur ei chyhoeddi i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau tryloywder, yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosib. Mae'n rhaid hefyd iddi hefyd ystyried manteision ymgynghori â phersonau â diddordeb mewn perthynas â phrif swyddogaethau ei Fwrdd, sy'n cynnwys pennu cyfeiriad strategol y BBC.

Gweithio ar y cyd

- 2.20 Mae'n rhaid i'r BBC weithio ar y cyd a cheisio ffurfio partneriaethau â sefydliadau eraill, lle byddai gwneud hynny er budd y cyhoedd.¹⁶

Rôl y BBC ac Ofcom mewn perthynas â chystadleuaeth

- 2.21 Fel sefydliad mawr a ariennir yn gyhoeddus sy'n gweithredu ar draws y sectorau teledu, radio ac ar-lein yn y DU, gall y BBC gael effaith arwyddocaol ar gystadleuaeth yn y diwydiant cyfryngau. Gall yr effaith hon fod yn gadarnhaol ac ysgogi galw neu annog arloesedd. Ond wrth gyflawni ei amcanion, gall y BBC hefyd niweidio gallu rhai eraill i gystadlu'n effeithiol.
- 2.22 Mae angen i'r BBC esblygu i barhau i gyflawni ei Chenhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, yn enwedig yng ngoleuni datblygiadau yn y sector. Ond mae'n bwysig nad yw datblygiadau yn arlwy y BBC yn rhwystro cystadleuaeth mewn ffordd a allai niweidio buddiannau cynulleidfaoedd. Gan hynny, mae'n ofynnol i'r BBC roi ystyriaeth i effeithiau ei gweithgareddau ar gystadleuaeth. Fel rhan o hynny, mae angen i'r BBC ystyried gwerth cyhoeddus ei gweithgareddau a cheisio osgoi effeithiau negyddol diangen ar gystadleuaeth yn y DU. Mae angen hefyd iddi ystyried sut y gall hybu'r effeithiau cadarnhaol ar y farchnad ehangach.
- 2.23 Rôl Ofcom yw darparu rheoleiddio cadarn, teg ac annibynnol ar y BBC, gan roi sylw i amcan y BBC i gyflawni ei Chenhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, yn ogystal â dymunoldeb diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.¹⁷ Ymhlith pethau eraill, mae'n rhaid i Ofcom bennu gofynion yn Fframwaith Gweithredu'r BBC i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU¹⁸ a, lle y bo'n briodol, gall gynnal adolygiad o gystadleuaeth y BBC ("BCR").¹⁹
- 2.24 Mae'r Siarter hefyd yn gosod rhwymedigaethau penodol ar y BBC mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i'w gwasanaethau cyhoeddus yn y DU, a nodir ymhellach yn y Cytundeb a'r Fframwaith Gweithredu.²⁰ Yn benodol, mae'n rhaid i'r BBC ystyried a yw

¹⁶ Erthygl 13 y Siarter.

¹⁷ Erthygl 45 y Siarter.

¹⁸ 4 Erthygl 46(5)(b) y Siarter.

¹⁹ Gweler isod.

²⁰ Gweler erthygl 20(4) y Siarter a chymalau 7 i 11 y Cytundeb. Gweler hefyd:

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0028/99415/bbc-public-service-activities-proposed.pdf.

unrhyw newidiadau arfaethedig i'w gwasanaethau cyhoeddus yn y DU yn faterol.²¹ Os yw'n ystyried eu bod, mae'n rhaid i'r BBC gynnal prawf buddiant y cyhoedd ("PIT"). Os yw'r prawf wedi'i fodloni, mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi'r newidiadau a gweithredu nhw ddim ond ar ôl i Ofcom benderfynu y gall wneud hynny. Wrth ddod i benderfyniad, gall Ofcom gynnal (i) asesiad cystadleuaeth y BBC ("BCA"), sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried a yw gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, neu (ii) asesiad byrrach.²² Os yw'r BBC wedi methu â chyhoeddi newid materol, gall Ofcom, ymhlith pethau eraill, gyfarwyddo'r BBC i gynnal PIT.

Adolygiadau cystadleuaeth y BBC

- 2.25 Fel rhan o'n rôl mewn perthynas â chystadleuaeth, efallai y byddwn yn cynnal BCR os oes gennym sail resymol dros gredu bod gweithredu gwasanaeth cyhoeddus y DU yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae'n rhaid i BCR asesu a yw gwerth cyhoeddus y gweithgaredd perthnasol yn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Gallai ddod i'r casgliad y gall y BBC barhau â'r gweithgaredd, neu bennu bod yn rhaid iddi wneud diwygiadau, neu barhau'n ddarostyngedig i amodau.²³
- 2.26 Rydym wedi cyhoeddi arweiniad sy'n nodi'r dull y byddwn yn ei fabwysiadu wrth benderfynu a ddylid lansio ac yna ymgymryd â BCR (ein "**harweiniad BCR**").²⁴ Fel y nodir yn ein harweiniad BCR, mae dwy agwedd yn gysylltiedig â phenderfyniad i gychwyn BCR: (a) a yw'r isafswm trothwy y mae'n rhaid ei fodloni cyn cychwyn BCR wedi'i fodloni; a (b) a fyddai'n briodol cychwyn BCR, yng ngoleuni materion gan gynnwys graddfa effeithiau ymddangosiadol, unrhyw farn gychwynol am werth cyhoeddus posib, ac unrhyw fesurau a allai fod ar gael i ddatrys y mater.
- 2.27 Mae ein harweiniad BCR yn nodi BCR fel offeryn ar gyfer archwilio gwasanaethau presennol y mae'r BBC wedi gwneud newidiadau cynyddrannol iddynt dros amser, neu lle mae amodau'r farchnad wedi newid yn arwyddocaol. Mae hefyd yn amlinellu "nad yw BCR yn ymwneud ag edrych ar benderfyniadau busnes o ddydd i ddydd a wneir gan y BBC", nac am "ailedrych ar faterion hanesyddol sydd wedi setlo yn y Siarter neu rôl sylfaenol y BBC".

Y fframwaith rheoleiddio a BBC Sounds

- 2.28 Cyn lansio BBC Sounds, rhannodd y BBC asesiad materoldeb o'i chynigion ar gyfer y gwasanaeth newydd gyda ni, a daeth i'r casgliad na fyddai'n gyfystyr â newid materol i'w gwasanaeth cyhoeddus "BBC Arlein" yn y DU. Gwnaethom gytuno â'r BBC nad oedd y cynigion yn gyfystyr â newid materol.

²¹ Bydd cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU bob amser yn faterol. Er mwyn penderfynu a yw newidiadau i wasanaethau cyhoeddus y DU sydd eisoes yn bodoli'n rhai materol, mae'n ofynnol i'r BBC ystyried a allai'r newid "gael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol".

²² Cymal 10 y Cytundeb.

²³ Cymal 12 y Cytundeb.

²⁴ [Asesu effaith gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC](#)- Ofcom, Mawrth 2017.

- 2.29 Ers 2018, rydym wedi adolygu asesiadau materoldeb gan y BBC mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig canlynol i BBC Sounds: cyfuno podlediadau trydydd parti ar y llwyfan BBC Sounds; lansio'r ffrwd Radio 1 Dance, a lansio'r ffrwd Radio 1 Relax. Ym mhob achos, gwnaethom gytuno â'r BBC nad oedd y cynnig yn gyfystyr â newid materol i'w gwasanaeth cyhoeddus BBC Arlein.²⁵
- 2.30 Fel rhan o wasanaethau cyhoeddus y BBC i'r DU, mae BBC Sounds yn ddarostyngedig i'r gofynion perthnasol yn y Siarter a'r Cytundeb, Fframwaith Gweithredu Ofcom, a'r Drwydded Weithredu. Nid oes unrhyw Amodau Rheoleiddio penodol ynghlwm wrth BBC Sounds yn y Drwydded Weithredu, er bod llawer o orsafoedd Radio'r BBC sydd wedi'u cynnwys arno yn ddarostyngedig i Amodau Rheoleiddio penodol. Ceir hefyd nifer cyfyngedig o Amodau Rheoleiddio sy'n ymwneud yn benodol â BBC Arlein yn gyffredinol.
- 2.31 O dan y Siarter, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod hyrwyddo gwasanaeth cyhoeddus i'r DU o fewn ei gwasanaethau cyhoeddus DU eraill yn canolbwyntio ar allbwn sy'n cyfrannu'n sylweddol at gyflawni ei Chenhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Mae hefyd yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi gwybodaeth am y fath drawshyrwyddo.²⁶ Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Fframwaith Gweithredu o ran sut mae'r BBC yn hyrwyddo ei gwasanaethau cyhoeddus i'r DU.

Cyfraniad BBC Sounds at gyflawni Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC

- 2.32 Mae'n ofynnol i'r BBC gyflawni ei Chenhadaeth a hyrwyddo ei Dibenion Cyhoeddus wrth ddarparu ei gwasanaethau cyhoeddus yn y DU. Y Dibenion Cyhoeddus yw:
- Diben Cyhoeddus 1: darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.
 - Diben Cyhoeddus 2: cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oedran.
 - Diben Cyhoeddus 3: dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, uchaf eu hansawdd ac unigryw.
 - Diben Cyhoeddus 4: adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol pob un o wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU.
 - Diben Cyhoeddus 5: adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.²⁷

Cynllun Blynyddol y BBC 2021/22

- 2.33 Mae Cynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2021/22 yn nodi ei chynlluniau strategol ar gyfer sain, gan gynnwys BBC Sounds.²⁸ Yn Atodiad 2 y Cynllun Blynyddol, mae'r BBC yn nodi sut y

²⁵ Mewn perthynas â Radio 1 Dance a Radio 1 Relax, gwnaethom gyhoeddi llythyrau yn amlinellu ein barn ar y cynigion, sydd ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/bbc-operating-framework/competition>.

²⁶ Erthygl 63 y Siarter.

²⁷ Yn ymarferol, nid gwasanaethau cyhoeddus y DU mo'r modd y mae'r BBC yn cyflawni Diben Cyhoeddus 5.

²⁸ [Cynllun Blynyddol y BBC 2021/22](#), Mawrth 2021. Gweler tudalennau 22 a 23.

mae'n bwriadu hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus ar draws ei holl wasanaethau. Nodir isod ddedoliadau o Atodiad 2 sy'n ymwneud yn benodol â BBC Sounds.

Diben Cyhoeddus 1

"Bydd BBC News yn archwilio ffyrdd o wella'r arlwy newyddion ar BBC iPlayer a BBC Sounds, gan arbrofi gyda dulliau newydd o gyflwyno bwletinâu newyddion a churadu cynnwys newyddion."

Diben Cyhoeddus 3

"Bydd Radio 3 yn darlledu fformatau sioe gerddoriaeth nodedig a arweinir gan anian a doniau, gan adeiladu ar lwyddiant Tearjerker; Downtime Symphony; a gomisiynwyd gyda BBC Sounds, i symbylu darganfyddiad a dod â cherddoriaeth glasurol i gynulleidfaoedd newydd ac ifainc sy'n hoffi sawl genre na fyddent byth yn ymgysylltu ag ef fel arall."

Bydd BBC Sounds yn brofiad gyda radio byw wrth ei wraidd: gydag ymagweddu cydweithredol newydd at gomisiynu sy'n darparu cynnwys unigryw, digwyddiadau nodedig ac enydau gwrando rheolaidd wedi'u cydgysylltu ar draws llinol ac ar-alw.

Peiriant creadigol ar gyfer y DU: adnewyddu'r arlwy o'n gorsafoedd radio anhygoel i gyflwyno gwerth i bob cynulleidfa, datblygu doniau amrywiol newydd drwy'r cynllun Sound Labs, ymchwilio i ddulliau newydd o weithio mewn partneriaeth â radio cymunedol, ac arddangos y podlediadau Prydeinig newydd ac esblygol gorau.

Yn fwy lleol nag erioed: yn ei gwneud yn haws i ddarganfod cynnwys lleol a chan y Gwledydd ar ei ben ei hun neu fel rhan o brofiadau wedi'u curadu.

Yn syml ac yn berthnasol i chi: mwy o werth drwy ddatgloi cynnwys BBC Radio o amserlenni i guradu cyflwyniadau wedi'u teilwra i'ch chwaeth a'ch enydau gwrando ar-alw a thrwy ffrwd newydd wedi'i hamserlennu o gynnwys i helpu cynulleidfaoedd ifainc yn benodol i reoli straen a'u lles drwy gynnwys cerddoriaeth a lleferydd.

Ar gael ym mhob man: gweithio gydag eraill ar draws sain y DU fel bod radio'n parhau i esblygu, yn berthnasol ac yn amlwg yn y car ac ar lwyfannau newydd fel llais."

Diben Cyhoeddus 4

[Mewn perthynas â'r BBC yng Nghymru] "Byddwn yn denu cynulleidfaoedd iau drwy greu podlediadau a chynnwys wedi'u teilwra ar gyfer BBC Sounds – gan gynnwys The Hayley Pearce Podcast."

[Mewn perthynas â'r BBC yng Nghymru] "Byddwn yn parhau i ehangu ein cynnwys Cymraeg a gynhyrchir ar gyfer BBC Sounds yn unig a byddwn yn creu mwy o le ar gyfer lleisiau amrywiol ac yn cryfhau ein cynnig ar gyfer cynulleidfaoedd ifainc."

[Mewn perthynas â'r BBC yng Ngogledd Iwerddon] "Datblygu proffil, cyrhaeddiad ac effaith allbwn a gynhyrchir yn lleol ar BBC Sounds, gan gynnwys podlediadau fel Year 21."

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2020/21

2.34 Ym mis Gorffennaf eleni, cyhoeddodd y BBC ei Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2020/21,²⁹ a nododd y cynnydd strategol yr oedd wedi'i wneud yn ystod 2020/21 o fewn BBC Sounds. Dywedodd y BBC wrthym yn ei hymateb i'r ymgynghoriad fod yr adroddiad yn cynnwys llawer mwy o ddata perfformiad ar gyfer BBC Sounds nag unrhyw ddata gwasanaeth sain ar-lein arall, gan roi mewnwelediad manwl i berfformiad BBC Sounds o ran profiadau a chanfyddiadau gwrandawyr. Dywedodd hefyd fod yr adroddiad yn nodi cryn fanylder am y rôl y mae BBC Sounds wedi'i chwarae wrth gyflwyno cylch gwaith creadigol y BBC drwy Ddiben Cyhoeddus 3.

Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020/21

2.35 Ochr yn ochr â'r datganiad hwn rydym yn cyhoeddi ein pedwerydd adroddiad blynyddol ar y BBC,³⁰ sy'n adrodd ar sut mae'r BBC wedi cyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus, gan gynnwys cyfraniad BBC Sounds.³¹

Cais am dystiolaeth ar leoliad marchnad a dylanwad BBC Sounds

2.36 Ar 14 Hydref 2020, gwnaethom gyhoeddi cais am dystiolaeth, lle gwnaethom geisio tystiolaeth a gwybodaeth mewn perthynas â lleoliad marchnad a dylanwad BBC Sounds.³² Bu i ni ddweud mai dyma oedd yr amser iawn i ystyried safbwynt y BBC mewn sain ar-lein, o gofio:

- yr oedd y sector sain wedi bod yn agored i gyfnod o newid sydyn oherwydd esblygiad y gwasanaethau ffrydio, gan gynnwys dyfodiad chwaraewyr byd-eang megis Spotify ac Apple Music;
- yr oedd disgwyliau cynulleidfaoedd hefyd wedi bod yn newid, gyda phobl yn gwrandao fwyfwy ar gynnwys sain ar-lein;
- wrth ymateb i'r newidiadau hyn, bu nifer o newidiadau cynyddrannol i BBC Sounds ers ei lansio yn 2018; a
- bod cystadleuwyr yn y sector radio masnachol wedi codi pryderon gyda ni am leoliad ac esblygiad BBC Sounds yn y farchnad.

2.37 Gwnaethon geisio tystiolaeth gan randdeiliaid am ddylanwad BBC Sounds ar y sector, gan gynnwys gwybodaeth am gyd-destun y farchnad y mae BBC Sounds yn gweithredu ynddi. Gwnaethom ddweud hefyd ein bod yn awyddus i ddeall strategaeth y BBC ar gyfer BBC Sounds, y rôl y mae'n disgwyl i'r gwasanaeth ei chwarae wrth gyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus, a sut gallai hyn effeithio ar gystadleuaeth.

²⁹ [Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2020/21](#)

³⁰ [Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21](#)

³¹ Am wybodaeth bellach gweler adran 5 y datganiad hwn.

³² [Lleoliad BBC Sounds yn y Farchnad](#) – cais am dystiolaeth, Hydref 2020.

Ymgynghori ar leoliad marchnad a dylanwad BBC Sounds

- 2.38 Ar 4 Mai 2021, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad,³³ a nododd ein barn dros dro:
- nid oedd gennym sail resymol dros gredu bod BBC Sounds yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol;
 - felly ni chyrrhaeddwyd y trothwy am symud ymlaen at adolygiad cystadleuaeth o BBC Sounds o dan Siarter a Chytundeb y BBC;
 - rydym yn disgwyl tryloywder ac ymgysylltiad gan y BBC â'r farchnad ynglŷn â'i chynlluniau a'i strategaeth ar gyfer BBC Sounds yn y dyfodol, i alluogi'r BBC i ddeall sut y gallai ei chynigion effeithio ar gystadleuaeth, ac i gymryd hyn i ystyriaeth wrth ddatblygu cynlluniau;
 - dylai'r BBC fabwysiadu ymagwedd fwy systematig at fesur perfformiad BBC Sounds a chyhoeddi mwy o wybodaeth am sut mae gwrandawyr yn defnyddio'r gwasanaeth hwn; ac
 - mae manteision posib i'w cael o gydweithio pellach rhwng y BBC a thrydydd partïon mewn perthynas â BBC Sounds.
- 2.39 Bu i ni nodi, fel rhan o adolygiad Ofcom o sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC,³⁴ y byddem yn ystyried ein fframwaith rheoleiddio ar gyfer ymchwilio i newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC a sut y dylai Trwydded Weithredu'r BBC esblygu i sicrhau ei bod yn cymryd gwasanaethau ar-lein y BBC i ystyriaeth.
- 2.40 Gofynnwyd i randdeiliaid am sylwadau ar ein safbwyntiau dros dro.

Themâu allweddol a ddeilliodd o'r ymatebion i'n hymgyngoriad

- 2.41 Cawsom 20 o ymatebion i'n cais am dystiolaeth a deg ymateb i'n hymgyngoriad, ym mhob achos gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau radio masnachol, cwmnïau cynhyrchu a'r BBC.³⁵
- 2.42 Rydym yn ymdrin â'r pwyntiau penodol a godwyd gan ymatebwyr yn adrannau 3, 4 a 5 y datganiad hwn. Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.³⁶

Cyd-destun y farchnad

- 2.43 Yn ein hymgyngoriad, gwnaethom amlinellu ein dealltwriaeth o gyd-destun y farchnad y mae BBC Sounds wedi datblygu ynddi. Esboniwyd sut yr oedd sector sain y DU yn newid yn gyflym oherwydd esblygiad gwasanaethau ar-lein a thwf llwyfannau ffrydio byd-eang, a sut yr oedd radio'r BBC a radio masnachol wedi ymateb i hyn.

³³ [Lleoliad BBC Sounds yn y Farchnad](#), ymgynghoriad, Ofcom, Mai 2021.

³⁴ Gweler isod.

³⁵ Mae'r ymatebion i'r cais am dystiolaeth a'r ymgynghoriad ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/bbc-sounds-market-position>.

³⁶ Gweler adran 2 yr ymgynghoriad am grynodeb o'r themâu allweddol a ddeilliodd o ymatebion i'r cais am dystiolaeth.

- 2.44 Gwnaeth nifer o randdeiliaid sylwadau ar ein barn am y farchnad. Er enghraifft, dywedodd Radiocentre fod rhai meysydd lle'r oedd ein barn ni wedi'i chamffurfio neu'n anghyflawn a'n bod wedi bychanu sut mae gwrandawyr yn symud ar-lein wrth wrando ar y radio, i ba raddau y mae gwrandawyr yn bwysig ac yn tyfu mewn pwysigrwydd, a goruchafiaeth y BBC mewn radio ar-lein.
- 2.45 Dywedodd Radiocentre a Wireless wrthym y dylem fod wedi cymharu maint y BBC â phob gweithredwr radio masnachol unigol yn hytrach na gyda radio masnachol yn gyffredinol. Yn ogystal, dywedodd Wireless ein bod wedi methu ag ystyried pryderon am leoliad y BBC yn y sector sain gair llafar ac nad oeddem wedi ystyried dylanwad y BBC ar bodlediadau yn briodol.

Ein hasesiad cystadleuaeth

- 2.46 Yn ein hymgyngoriad, ystyriwyd a oedd BBC Sounds yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Bu i ni archwilio tair ffordd y gallai BBC Sounds gael y fath effaith (damcaniaethau niwed) i weld a oedd y dystiolaeth yn cefnogi hyn, sef:
- a oedd y BBC yn tyrru allan radio masnachol ar-lein;
 - a oedd trawshyrwyddo'r BBC yn helaeth ar BBC Sounds yn niweidio gallu radio masnachol i gystadlu; a
 - thrwy gyflenwi sector podlediadau'r DU gyda maint mawr o gynnwys 'archif' am ddim a heb hysbysebion, a oedd BBC Sounds yn ei gwneud yn anodd i gyhoeddwr podlediadau eraill wneud arian.
- 2.47 Ein casgliad dros dro oedd nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi unrhyw un o'r damcaniaethau niwed hyn ac felly daethom i farn dros dro nad yw BBC Sounds yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
- 2.48 Cytunodd y BBC â'n casgliadau dros dro, fel y gwnaeth y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol ac Urdd Awduron Prydain Fawr.
- 2.49 Er i Radiocentre dderbyn mai "dim ond dystiolaeth gyfyngedig sydd i ddangos bod BBC Sounds wedi cael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol hyd yma", fe gododd nifer o bryderon am ein hasesiad o effaith gystadleuol BBC Sounds.
- 2.50 Dadleuodd y dylai ein hasesiad cystadleuaeth edrych ar effeithiau posib gweithgareddau presennol y BBC yn y dyfodol, nid yn unig yr effaith a oedd wedi dod i'r amlwg hyd yma.
- 2.51 O ran damcaniaethau niwed, dywedodd y dylai ein hasesiad o effaith trawshyrwyddo BBC Sounds gynnwys gwariant marchnata allanol, ac wrth asesu effaith BBC Sounds ar allu cyhoeddwr podlediadau i gynhyrchu refeniw, y dylem gynnwys effaith benodol podlediadau pennaf y BBC, yn ogystal â gwrandawr ar bodlediadau'r BBC ar lwyfannau heblaw BBC Sounds.
- 2.52 Anghytunodd Radiocentre â'n dehongliad o rywfaint o'r dystiolaeth hefyd. Dywedodd y dengys y dystiolaeth fod trawshyrwyddo BBC Sounds (a hyrwyddo allanol ychwanegol y telir amdano) ymhell y tu hwnt i fodd y sector radio masnachol, felly ni ellir dod i'r casgliad nad yw gweithgarwch trawshyrwyddo'r BBC wedi cael unrhyw effaith arwyddocaol.

- 2.53 O ran refeniw hysbysebu podlediadau, dywedodd Radiocentre y dengys y dystiolaeth bod marchnad hysbysebu podlediadau'r DU wedi'i thanddatblygu, gan ddarparu data ychwanegol i gefnogi hyn.
- 2.54 Yn olaf, honnodd fod y BBC yn ymgymryd ag arferion gwrth-gystadleuol sy'n gwaethygu effaith BBC Sounds. Dywedodd fod yr arferion hyn yn cynnwys gwneud dosbarthiad ar-lein ei gorsafoedd radio yn amodol ar gefnogi cysylltiadau rhwng apiau sy'n ailgyfeirio defnyddwyr o Radioplayer i BBC Sounds, a rhoi cyfnod neilltuedig i BBC Sounds cyn darparu podlediadau'r BBC ar lwyfannau eraill.
- 2.55 Anghytunodd Wireless â'n hasesiad o effaith gystadleuol BBC Sounds. Bu iddynt ddadlau y dylai ein dadansoddiad fod wedi gwahanu radio lleferydd a radio cerddoriaeth sydd, yn eu barn nhw, â nodweddion ac amgylcheddau cystadleuol unigryw.
- 2.56 Dywedodd hefyd, yn absenoldeb unrhyw ddata gan y BBC i feintioli i ba raddau y cefnogir BBC Sounds trwy drawshyrwyddo, nad oes sail resymegol i Ofcom ddod i'r casgliad a wnaethom ar y mater hwn. Wrth asesu effaith BBC Sounds ar allu cyhoeddwyr podlediadau i gynhyrchu refeniw, dywedodd y dylai Ofcom fod wedi creu darlun gwrthffeithiol cywir o sut y byddai marchnad bodlediadau'r DU o bosib yn edrych heb y BBC.
- 2.57 Yn olaf, dywedodd fod yna rhai ffactorau y dylem fod wedi'u cymryd i ystyriaeth wrth ddehongli'r data cymharol ar wrandawyr radio'r BBC a radio masnachol, gan gynnwys dosbarthiad FM/AM a DAB mwy cynhwysfawr o BBC Radio, a'r gwahaniaethau rhwng portffolios, strategaethau, blaenoriaethau a graddfa rhanddeiliaid radio masnachol.

Ein barn dros dro

Y prawf ar gyfer agor BCR mewn perthynas â BBC Sounds

- 2.58 Gofynnwyd i randdeiliaid a oeddent yn cytuno â'n barn dros dro na fodlonwyd y prawf ar gyfer agor BCR mewn perthynas â BBC Sounds.³⁷ Er i'r BBC a'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol gytuno â'n barn dros dro, roedd Radiocentre, Wireless ac ymatebydd unigol yn anghytuno.
- 2.59 Dywedodd Radiocentre, yn seiliedig ar ei ddadansoddiad o'n damcaniaethau niwed, a'r angen i'w hystyried yn eu cyfanrwydd yn hytrach nag yn unigol, fod y trothwy sydd ei angen i gychwyn BCR wedi'i basio.
- 2.60 Dywedodd Wireless fod Ofcom wedi methu â deall y farchnad, a bod Ofcom wedi defnyddio mewnwelediadau amherffaith fel sail i'w hasesiad o'r effaith ar y farchnad. Dywedodd nad oes gan Ofcom felly unrhyw sail resymol dros gredu nad yw BBC Sounds yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Pan allai newidiadau i BBC Sounds yn y dyfodol godi pryderon cystadleuaeth

- 2.61 Yn ein hymgyngoriad, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'n barn ynghylch pryd y gallai newidiadau i BBC Sounds godi materion yn ymwneud â chystadleuaeth. Bu i ni

³⁷ Gweler isod am esboniad o BCR.

ddweud ein bod o'r farn y byddai newidiadau i nodweddion, ac ychwanegu meintiau bach o gynnwys tebyg i'r hyn sydd eisoes ar gael ar BBC Sounds, yn llai tebygol o godi pryderon nag ychwanegu mathau newydd o gynnwys neu gynnwys sy'n ymwneud maes newydd neu embryonig.

- 2.62 Cytunodd y BBC a Radiocentre yn fras â'n barn. Anghytunodd Wireless y byddai newidiadau i nodweddion BBC Sounds yn llai tebygol o fod angen eu craffu'n fanylach; dywedodd y byddai hyn yn anwybyddu asesiad o'r buddsoddiad ymchwil a datblygu sydd ei angen i ddylunio a gweithredu'r fath ddiweddiadau, a gallu gweithredwr masnachol i gyfiawnhau'r fath wariant. Dywedodd hefyd ei fod yn pryderu'n benodol am y potensial i gynnwys gair llafar newydd gan y BBC gael effaith andwyol ar y farchnad.

Tryloywder ac ymgysylltu – newidiadau cynlluniedig i BBC Sounds

- 2.63 Yn ein hymgyngoriad, bu i ni ddweud i ni ddisgwyl tryloywder ac ymgysylltiad gan y BBC â'r farchnad ynghylch ei chynlluniau a'i strategaeth yn y dyfodol, i alluogi'r BBC i ddeall sut y gallai ei chynigion effeithio ar gystadleuaeth, ac i gymryd hyn i ystyriaeth wrth ddatblygu nhw. Gofynnwyd am farn ar yr wybodaeth a ddarperir gan y BBC a pha welliannau y gellid eu gwneud.
- 2.64 Pwysleisiodd y BBC ei hymrwymiad i ymgysylltu'n dryloyw â rhanddeiliaid am ei chynlluniau, ond ystyriodd Radiocentre, AudioUK, Wireless ac Urdd Awduron Prydain Fawr fod angen i gynlluniau'r BBC gynnwys mwy o fanylder.

Argaeledd data perfformiad Sounds

- 2.65 Yn ein hymgyngoriad, bu i ni ddweud i ni ddisgwyl i'r BBC fabwysiadu ymagwedd fwy systematig at fesur perfformiad BBC Sounds a chyhoeddi mwy o wybodaeth am sut mae gwrandawyr yn defnyddio BBC Sounds.
- 2.66 Dywedodd y BBC fod ei Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar gyfer 2020/21 yn amlinellu'r cynnydd strategol yr oedd wedi'i wneud yn ystod 2020/21 o fewn BBC Sounds, a'i fod yn cynnwys data sy'n rhoi mewnwleidiad manylach i berfformiad BBC Sounds.
- 2.67 Galwodd Radiocentre i fwy o ddata perfformiad gael ei ddarparu ynghylch BBC Sounds, gan gynnwys cyrhaeddiad, cyfanswm y dramâu wythnosol, cost fesul awr gwrandawr a demograffeg gwrandawyr. Dywedodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol yr hoffai weld *"... y ffeithiau, y ffigurau a'r canlyniadau diriaethol y mae BBC Sounds yn eu cyfrannu at yr ymrwymiad a ddatganwyd i gefnogi diwydiannau creadigol y DU, hyrwyddo sain newydd, gweithio gyda doniau amrywiol, a sefydlu partneriaethau pwrpasol gyda radio cymunedol."*

Cydweithio rhwng y BBC a thrydydd partïon

- 2.68 Gwnaethom ofyn i rhanddeiliaid a oeddent yn cytuno y gallai cydweithio pellach rhwng y BBC a rhanddeiliaid eraill ddod â manteision i sector sain y DU.
- 2.69 Cawsom ymateb cymysg i hyn. Roedd Wireless yn benodol, yn ogystal â'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol ac Urdd Awduron Prydain Fawr, yn gefnogol o gydweithio pellach rhwng y BBC a rhanddeiliaid eraill yn y farchnad.

- 2.70 Mynegodd rhanddeiliaid eraill amheuan, yn enwedig Radiocentre, a ddywedodd nad oedd yn teimlo y byddai cydweithio â radio masnachol ar BBC Sounds yn fuddiol.

Adolygiad Ofcom o reoleiddio'r BBC

- 2.71 Ym mis Gorffennaf eleni, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad, *Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC*, a nododd y dechrau i'n hadolygiad o reoleiddio'r BBC, a bydd yn sail i'n cyngor i lywodraeth y DU ar gyfer ei hadolygiad hanner ffordd trwy'r Siarter.³⁸
- 2.72 Mae'r adolygiad yn ymdrin â phob maes o'n rheoleiddio ar gyfer y BBC, gan gynnwys sut rydym yn dwyn y BBC i gyfrif am gyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus, a sut rydym yn diogelu cystadleuaeth mewn perthynas â gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC.
- 2.73 Fel rhan o hyn, byddwn yn ystyried sut y dylai'r Drwydded Weithredu esblygu i adlewyrchu arferion a disgwyliadau cynulleidfaoedd newidiol mewn byd digidol. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar yr wybodaeth y mae'r BBC yn ei darparu i Ofcom a'r hyn y mae'n ei ddarparu'n gyhoeddus, e.e. trwy ei chynlluniau blynyddol a'i hadroddiadau blynyddol.

Adolygiad Llywodraeth y DU o radio a sain ddigidol

- 2.74 Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS") ymgynghoriad ar ei Hadolygiad a Radio a Sain Ddigidol.³⁹ Comisiynwyd yr adolygiad ym mis Chwefror 2020 gyda'r amcan o asesu tueddiadau tebygol o ran gwranddo yn y dyfodol ac i wneud argymhellion ar ffyrdd o gryfhau radio a sain yn y DU. Roedd prif argymhellion yr adolygiad yn ymwneud â rheolau newydd i ddiogelu presenoldeb radio'r DU ar ddyfeisiau sain cysylltiedig fel seinyddion clyfar, a nodwyd na ddylid mandadu diffodd radio analog tan o leiaf 2030.
- 2.75 Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn ystyried yr argymhellion hyn wrth baratoi Papur Gwyn Darlledu a datblygu trefn newydd o blaid cystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd digidol. Ni wnaeth yr adolygiad unrhyw argymhellion sydd â goblygiadau uniongyrchol ar gyfer ein hadolygiad o leoliad BBC Sounds yn sector sain y DU.

³⁸ [Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC](#), ymgynghoriad, Gorffennaf 2021

³⁹ [Adroddiad Llywodraeth y DU ar adolygu radio a sain ddigidol](#), Hydref 2021.